# Atodiad 2

## Nodiadau briffio cyfranogwyr ar gyfer sesiynau un i un

Atodiad 2.1 Rheoli Pridd

Atodiad 2.2 Rheoli Cynefinoedd

Atodiad 2.3 Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm

Atodiad 2.4 Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw



# Atodiad 2.1
# Rheoli Pridd

## Briff Rheoli Pridd
## Trafodaethau un i un

Mae hwn yn gyfle i chi helpu i siapio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd yng Nghymru. Bwriedir i'r SFS newydd ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) presennol a Glastir, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i lunio cynllun a fydd yn gweithio i chi a'ch busnes

Mae'r pum cam canlynol yn nodi eich taith arfaethedig trwy'r SFS newydd:

1. **Allgymorth –** proses i ddarparu gwybodaeth cyn i chi ymuno â'r cynllun.
2. **Datganiad o ddiddordeb -** i'w gwblhau a'i gyflwyno gennych chi, y ffermwr.
3. **Adolygiad Cynaliadwyedd Fferm -** i'w gynnal rhyngoch chi ag ymgynghorydd.
4. **Cynllun Cynaliadwyedd Fferm –** bydd hwn yn gynllun aml-flwyddyn a fydd yn sail y contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.
5. **Monitro a hunanasesu –** bydd hyn yn parhau trwy gydol y contract.

Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar bedwar prif faes, sef:

1. **Rheoli'r Pridd**
2. **Iechyd a Lles Anifeiliaid**
3. **Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm**
4. **Rheoli Cynefinoedd**

Mae'r drafodaeth hon yn canolbwyntio ar Reoli'r Pridd.

**Cyflwyniad**
Nod y sgwrs hon yw canolbwyntio ar rai o'r camau gweithredu'n ymwneud â rheoli'r pridd a fydd yn arwain at y canlyniadau dymunol ar gyfer SFS. Mae llawer o gamau gweithredu'n ymwneud â rheoli'r pridd yn arwain at ganlyniadau niferus. Er enghraifft, bydd cynnydd mewn carbon yn y pridd;

- Cynnal cynaeafau iach
- Helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd
- Gwella'r gallu i ymdopi â straen dŵr - sychder a llifogydd
- Lleihau llygredd dŵr ac aer
- Cefnogi biota yn y pridd – fflora, ffawna a microbau





**Cefndir**

Mae pridd ar ein ffermydd yn allweddol er mwyn bwydo'r wlad a'r byd. Bydd rheoli'r pridd mewn modd cynaliadwy yn sicrhau y byddwn ni, a'r cenedlaethau sy'n ein dilyn, yn elwa o gynhaeaf da am flynyddoedd i ddod, ynghyd â manteision amgylcheddol sy'n ymwneud â: rheoli dŵr, llygredd a bioamrywiaeth.

Mae pobl yn rhoi baich cynyddol ar bridd, ac yr ydym yn ei wthio i bwynt tyngedfennol. Mae anghydbwysedd maetholion, erydiad, colli carbon organig, colli bioamrywiaeth, halogiad, asideiddio, cywasgu a phwysau trefoli i gyd yn cyfrannu at ddyfodol ansicr i'n priddoedd.

Mae rhai arferion ffermio yn gallu rhyddhau carbon o'r pridd neu arwain at lefelau uchel o NPK (nitrogen, ffosfforws a photasiwm) mewn pridd a llygru'r amgylchedd. Gall hyn fod ar ffurf llygredd aer, er enghraifft amonia, neu drwytholchi maetholion NPK i gyrsiau dŵr. Gall y llygredd hwn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl ac mae'n tarfu ar gydbwysedd ecosystemau mewn dyfrffyrdd sy'n arwain at barthau marw.

Trwy roi rheolaeth y pridd ac iechyd y pridd wrth wraidd amaethyddiaeth drwy gynllunio rheoli maetholion, mae'n bosibl cyfyngu ar effaith dynol ac amgylcheddol prosesau cynhyrchu bwyd. Gall canolbwyntio ar iechyd y pridd fod yn gyfrwng i alluogi diwydiant amaethyddol sy'n fwy cynhyrchiol a chynaliadwy o safbwynt amgylcheddol. Byddai hyn yn cynnwys edrych ar y fferm gyfan o ran rheoli maetholion a defnyddio adnoddau'r fferm, megis slyri, tail, neu wastraff yn effeithiol.

Felly, bydd y cynllun ffermio cynaliadwy yn canolbwyntio **ar gynnal a chadw ac adfywio priddoedd iach drwy annog arferion gorau o ran rheoli'r pridd**, gan gynnwys:

- cynllunio rheoli maetholion (NMP)
- cynllunio rheoli tail (MMP)
- rheoli adnoddau: gan gynnwys dŵr
- agwedd economi gylchol (mae economi gylchol yn system economaidd gyda'r nod o gael gwared ar wastraff a gwneud defnydd parhaus o adnoddau) - gan gadw adnoddau ar eu mwyaf gwerthfawr

# Atodiad 2.2
# Rheoli Cynefinoedd

## Briff Rheoli Cynefinoedd
## Trafodaethau un i un

Mae hwn yn gyfle i chi helpu i siapio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd yng Nghymru. Bwriedir i'r SFS newydd ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) presennol a Glastir, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i lunio cynllun a fydd yn gweithio i chi a'ch busnes

Mae'r pum cam canlynol yn nodi eich taith arfaethedig trwy'r SFS newydd:

1. **Allgymorth** – proses i ddarparu gwybodaeth cyn i chi ymuno â'r cynllun.
2. **Datganiad o ddiddordeb** - i'w gwblhau a'i gyflwyno gennych chi, y ffermwr.
3. **Adolygiad Cynaliadwyedd Fferm** - i'w gynnal rhyngoch chi ag ymgynghorydd.
4. **Cynllun Cynaliadwyedd Fferm** – bydd hwn yn gynllun aml-flwyddyn a fydd yn sail y contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.
5. **Monitro a hunanasesu** – bydd hyn yn parhau trwy gydol y contract.

Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar bedwar prif faes, sef:

1. **Rheoli'r Pridd**
2. **Iechyd a Lles Anifeiliaid**
3. **Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm**
4. **Rheoli Cynefinoedd**

Mae'r drafodaeth hon yn canolbwyntio ar reoli cynefinoedd.

**Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Rheoli Cynefinoedd**
Mae rheoli cynefinoedd yn ymwneud â sicrhau digonedd o rywogaethau amrywiol. Gyda digonedd o rywogaethau amrywiol, mae systemau ecolegol yn fwy tebygol o allu ymdopi gydag aflonyddwch, gallu adfer neu addasu iddynt, gan barhau i ddarparu buddion ar gyfer y gymdeithas.
Mae manteision digonedd o rywogaethau ac amrywiaeth yn cynnwys gwasanaethau megis:

- Peillio cnydau
- Hidlo dŵr ac aer
- Dal a storio carbon
- Cefnogi rhywogaethau ysglyfaethus sy'n rheoli nifer y plâu
- Rheoli erydiad pridd
- Rheoleiddio cylchredau naturiol fel nitrogen a charbon

Pe bai pobl yn ceisio darparu'r holl wasanaethau a gyflenwir yn naturiol ar hyn o bryd, byddai'n ychwanegu cost sylweddol o ran amser, arian, carbon ac adnoddau eraill. Byddai'r diwydiant amaeth yng Nghymru yn gorfod cwrdd â'r costau cynhyrchu ychwanegol hyn. Trwy gynyddu gwytnwch, nod y cynllun ffermio cynaliadwy yw sicrhau bod y gwasanaethau hyn ac eraill megis iechyd a lles dynol, yn parhau i gael eu darparu.





Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth a thrwy hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. Mae'r Ddeddf yn amlinellu nifer o agweddau i'w hystyried wrth feddwl am wytnwch. Rheoli Cynefinoedd a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun newydd yn debygol o ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau sydd y tu allan i'r set sgiliau amaethyddol traddodiadol. Mae'n debygol y bydd angen i'r cynllun gynhyrchu canllawiau i ffermwyr sy'n ymdrin ag amrywiaeth o gynefinoedd Cymru. Byddai canllawiau'n helpu ffermwyr i olrhain y newidiadau mewn cyflwr cynefin ac yn rhoi arweiniad ynglŷn â chamau gweithredu neu fesuriadau i'w cymryd.
Mae'n debygol y bydd dilyn y canllawiau yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio wrth reoli cynefinoedd.
Nod Llywodraeth Cymru yw datblygu cynllun sy'n atgyfnerthu gwytnwch ecosystemau amaethyddol a gwella ecosystemau naturiol Bydd y cynllun yn cynnig cyfres o gamau sydd wedi'u targedu at gyflawni'r canlyniad hwn, a cheir amlinelliad o ddetholiad ohonynt isod.

**Amrywiaeth amaethyddol ar dir wedi'i wella/tir âr**

| Agwedd ar wydnwch ecosystemau | Camau Gweithredu | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Amrywiaeth | Plannu porfa amrywiol | Lleihau'r angen am fewnbynnau e.e. gwrteithiau sy'n effeithio ar fywyd y pridd; amodau e.e. x1 sefydlogi N, x1 planhigyn meddyginiaethol ar gyfer rheoli plâu |
| Amrywiaeth | Amrywiaeth o gyltifarau | Mae defnyddio amrywiaeth o gyltifarau yn darparu ymwrthedd i amrywiaeth o blâu gan leihau'r angen i reoli plâu a'r costau cysylltiedig |
| Amrywiaeth | Aml-gnydio | Mae porfeydd aml-rywogaeth yn gwreiddio ar wahanol ddyfnder, ac yn gwneud y gorau o gapasiti naturiol y tir drwy sefydlogi nitrogen |
| Amrywiaeth | Cnydau gorchudd | |
| Amrywiaeth | Dyfnder gwreiddio | Mae amrywiaeth yn cynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn y gwreiddiau. Mae gwreiddiau'n darparu llwybrau i ddŵr ymdreiddio i'r pridd. |
| Amrywiaeth | Mathau o wreiddiau | Mae gwreiddiau ffibrog tenau i wreiddiau dwfn yn gweithredu ar y pridd mewn gwahanol ffyrdd, gan gyfuno priddoedd ar y wyneb neu dorri haenau o gywasgiad dyfnach. Gyda'i gilydd maent yn sicrhau priddoedd iachach, ac felly'n gwneud gweithrediad yr ecosystem yn fwy effeithiol |

### Datblygu Clytwaith Ecolegol

| Agwedd ar wydnwch ecosystemau | Camau Gweithredu | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Graddfa | Maint/siâp y darnau clytwaith | Mae darnau mwy o gynefin lled-naturiol gyda mwy o ymylon neu ardaloedd o wahanol drwch yn darparu cynefin amrywiol |
| Graddfa | Mwy o'r un 'darnau' | Mae mwy o ddarnau o gynefin naturiol yn cynnig lleoedd nifer o rywogaethau symud yn ôl ac ymlaen |
| Amrywiaeth | Darnau o liwiau gwahanol le bo'n briodol | Mae darparu cynefin newydd sy'n wahanol i'r presennol yn cynnig cilfachau newydd ar gyfer rhywogaethau |
| Cysylltedd | Cysylltu lliwiau gyda'i gilydd | Os mae'r cynefin mewn coridorau ynysig, gall hynny ddarparu llwybr pwysig er mwyn i'r rhywogaethau allu symud. Caniatáu ar gyfer amrywiaeth genetig |
| Ansawdd | Gwella ansawdd y darnau | Gall ecosystemau fod mewn amrywiaeth o gyflyrau. Dylai gwella ansawdd cynefin ei gynorthwyo i gefnogi mwy o rywogaethau neu fwy o amrywiaeth o rywogaethau |
| Graddfa/ cysylltedd | Gweithio gyda ffermydd cyfagos i gynllunio dull gweithredu | Mae gweithio ar raddfa'r dirwedd yn caniatáu i ffermwyr gefnogi rhywogaethau symudol, fel adar, gan wella'r ystod gyfan y mae'r rhywogaeth yn gweithredu ynddi |
| Amrywiaeth | Ffyngau, bacteria a phrotistiaid | Bydd amrywiaeth o ficro-organebau mewn pridd yn darparu amrywiaeth o swyddogaethau ecosystem, gan gynnwys cludo maetholion neu ddŵr |
| Amrywiaeth | Organebau micro/bach | Cynnal sylfaen ar gyfer y we fwyd, ac felly'r ecosystem |





### Cynllunio rheoli asedau

| Agwedd ar wydnwch ecosystemau | Camau Gweithredu | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Amrywiaeth | Amrywiaeth oedran y cynefin neu o fewn y cynefin | Mae sicrhau cynefinoedd ar wahanol gyfnodau yn eu cylchred bywyd yn darparu cilfachau ar gyfer gwahanol rywogaethau, o ffwng ar goed marw i adar yn bwyta ffrwythau |
| Cyflwr | Dwysedd cynnal a chadw | Mae amrywiaeth yng nghyflwr y cynefin yn ei alluogi i gael ei ddefnyddio gan ystod ehangach o rywogaethau |
| Amrywiaeth | Dull offer mecanyddol | Gallai gwaith cynnal a chadw gyda pheiriannau, dan arweiniad gwybodaeth a sgiliau'r ffermwr ac isadeiledd, fod fwyaf effeithiol. Bydd hyn yn darparu canlyniadau gwahanol i ddulliau eraill gan ddarparu ei ystod ei hun o fuddion |
| Amrywiaeth | Dull offer da byw | Gallai gwaith cynnal a chadw gan ddefnyddio da byw, dan arweiniad gwybodaeth a sgiliau'r ffermwr ac isadeiledd, fod fwyaf effeithiol. Bydd hyn yn darparu canlyniadau gwahanol i ddulliau eraill gan ddarparu ei ystod ei hun o fuddion |
| Amrywiaeth | Dull offer plannu | Gallai gwaith cynnal a chadw gan ddefnyddio planhigion penodol, dan arweiniad gwybodaeth a sgiliau'r ffermwr ac isadeiledd, fod fwyaf effeithiol. Bydd hyn yn darparu canlyniadau gwahanol i ddulliau eraill gan ddarparu ei ystod ei hun o fuddion |
| Cyflwr | Rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol | Fel y rhai sy'n rhyngweithio gydag 88% o dir Cymru o ddydd i ddydd, bydd ffermwyr yn sylwi ac yn gallu ymateb i rywogaethau goresgynnol yn sydyn os bydd y cynllun yn eu caniatáu i weithredu - cafeat - problem ar raddfa'r dirwedd |
| Cyflwr | Sefydlogi tymheredd y ddaear | Mae tymereddau pridd uchel yn lleihau gweithgaredd biolegol yn agos at sero. Mae planhigion yn cysgodi'r pridd, yn dal haen o aer, ac yn helpu i sefydlogi'r tymereddau gan ganiatáu prosesau biolegol. |
| Amrywiaeth | Defnyddio lefel isel o wrthfiotigau | O'u gor-ddefnyddio, gall gwrthfiotigau fynd i mewn i'r pridd a lladd bacteria yn yr un modd â phan fyddant yn cael eu rhagnodi er mwyn trin yr anifail. Mae hyn yn lleihau biota pridd, a swyddogaeth ecosystem |

Gwybodaeth

| Aspect of Ecosystem Resilience | Action | Reasoning |
|---|---|---|
| Cyflwr | Gwybodaeth | Bydd y cynllun yn ddibynnol ar ddatblygu a defnyddio gwybodaeth. Ceir diddordeb penodol yn y modd y mae ffermwyr yn chwilio am wybodaeth ac yn dysgu, e.e. a oes well ganddynt:<br>• Lleoliad ffurfiol yn yr ystafell ddosbarth<br>• Mentora uniongyrchol<br>• Dysgu mewn grwpiau trwy arddangosiad ymarferol<br>• Dysgu trwy ddefnyddio adnoddau fideo megis YouTube |
| Addasrwydd | Ymateb i'r tywydd i addasu cynlluniau a dynwared natur | Er enghraifft: cynlluniau pori adweithiol yn seiliedig ar gyfradd twf glaswellt. Mae hyn yn cynnwys darparu ardal bori fwy neu lai i'r grŵp o anifeiliaid, ac mae angen ymgysylltu a chynllunio, yn ogystal â nod clir |
| Y gallu i addasu | Cynllunio yn seiliedig ar fodelu a rhagfynegiadau ar gyfer addasrwydd | Mae timau Llywodraeth Cymru wedi modelu sut y bydd tymereddau cynyddol a newidiadau mewn glawiad yn effeithio ar addasrwydd tir ar gyfer cnydau amrywiol. Bydd deall a dehongli'r wybodaeth hon yn helpu ffermwyr i gynllunio cylchdroadau 10+ mlynedd |
| Cyflwr | Darperir canllawiau fesul math o gynefin | Bydd angen i ffermwyr ddatblygu sgiliau penodol mewn meysydd fel rheoli coetir neu reoli corsydd. Bydd angen arweiniad hefyd ar ffurflenni hygyrch |





# Atodiad 2.3
# Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm

## Briff Cyfleoedd Datblygu Fferm Trafodaethau un i un

Mae hwn yn gyfle i chi helpu i siapio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd yng Nghymru. Bwriedir i'r SFS newydd ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) presennol a Glastir, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i lunio cynllun a fydd yn gweithio i chi a'ch busnes

Mae'r pum cam canlynol yn nodi eich taith arfaethedig trwy'r SFS newydd:

1. **Allgymorth** – proses i ddarparu gwybodaeth cyn i chi ymuno â'r cynllun.
2. **Datganiad o ddiddordeb -** i'w gwblhau a'i gyflwyno gennych chi, y ffermwr.
3. **Adolygiad Cynaliadwyedd Fferm -** i'w gynnal rhyngoch chi ag ymgynghorydd.
4. **Cynllun Cynaliadwyedd Fferm** – bydd hwn yn gynllun aml-flwyddyn a fydd yn sail y contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.
5. **Monitro a hunanasesu** – bydd hyn yn parhau trwy gydol y contract.

Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar bedwar prif faes, sef:

1. **Rheoli'r Pridd**
2. **Iechyd a Lles Anifeiliaid**
3. **Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm**
4. **Rheoli Cynefinoedd**

Mae'r drafodaeth hon yn canolbwyntio ar Gyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm.

**Beth yw Datblygu Ffermydd?**
Mae unrhyw newid yn gyfle i fyfyrio, ail-asesu a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Yng nghyd-destun ffermio, bydd newidiadau i berthynas fasnachu yn y dyfodol, cymorth fferm newydd a mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn sbarduno proses o addasu. Bydd yn sbardun i chwilio am gyfleoedd a syniadau newydd i ddatblygu eich busnes ffermio, gan ei wneud yn gryfach ac yn fwy gwydn.

Roedd yr ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir yn nodi y gallai cynllunio busnes yn well, meincnodi, rhyngweithio â data'r farchnad a'r gadwyn gyflenwi arwain at welliannau busnes. Fodd bynnag, er bod nifer fach o ymatebwyr yn awyddus i weld mwy o gymorth busnes ar gael i ffermwyr, roedd mwyafrif yr ymatebwyr a fynegodd farn ar y pwnc hwn yn teimlo bod cyflwyno cymorth busnes ychwanegol ar gyfer y cynllun newydd yn ddiangen ac yn draenio adnoddau prin.

Felly, mae angen i'r cynllun newydd hwn feddwl am ffyrdd newydd i helpu ffermwyr a thirfeddianwyr i ddatblygu eu ffermydd dros y tymor byr, canolig a hir. Yn hytrach na chanolbwyntio ar reoli'r agweddau ariannol, mae Llywodraeth Cymru eisiau datblygu

asesiad holistaidd o'r fferm, uchelgais/nodau'r ffermwr, y teulu a'r gweithwyr. Dylid ystyried yr asesiad hwn fel cyfle i gymryd cam yn ôl i edrych ar y blaenoriaethau ac i ddatblygu strategaethau ar gyfer eich fferm.

Un o'r adnoddau er mwyn edrych yn holistaidd ar ddatblygu'r fferm yw dadansoddiad SWOT (h.y. adnabod eich Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau). Yn hytrach na defnyddio'r cynllun busnes fferm confensiynol, gallai dadansoddiad SWOT fod yn well adnodd ar gyfer datblygu strategaeth fferm ac i ganfod anghenion y busnes fferm. **Gallai'r canlyniad amlygu'r angen i wella isadeiledd, buddsoddi mewn cyfarpar newydd, yr angen i ddatblygu sgiliau neu ddysgu sgiliau newydd.**

Unwaith y caiff nodau eu pennu a bod strategaeth yn cael ei datblygu, mae angen i'r fenter ffermio gofnodi ei llwyddiannau. Mae angen gosod dangosyddion Perfformiad Allweddol addas fel rhan o'r Strategaeth Datblygu Ffermydd a fydd yn dangos gwelliannau. Gall rhai Dangosyddion Perfformiad Allweddol fod yn benodol i'r fferm unigol, gan gymharu newidiadau blynyddol a gall rhai fod yn rhai cyffredinol i'r sector. Bydd darparu data cyffredinol ar gyfer y sector ar gyfer meincnodi o fudd i'r diwydiant mewn dwy ffordd, drwy:

- greu set ddata meincnodi ar draws y sector, a
- chaniatáu i ffermydd unigol asesu eu perfformiad

Felly, i grynhoi, mae datblygu'r fferm yn broses o ganfod eich nodau/uchelgeisiau, asesu eich sefyllfa bresennol trwy gynnal dadansoddiad SWOT, gweithredu strategaeth i fynd â'ch busnes yn ei flaen a monitro eich cynnydd a'ch perfformiad.

### Cwestiynau

Diben y cwestiynau hyn yw darparu fframwaith ar gyfer y trafodaethau un i un, ond peidiwch â theimlo eich bod yn cael eich cyfyngu i'r rhain yn unig. Os ydych yn teimlo nad yw rhai cwestiynau yn berthnasol i'r materion yr ydych am eu trafod, mae croeso i chi ganolbwyntio ar y rhai y mae gennych ddiddordeb ynddynt yn unig.

### Strategaeth Datblygu Ffermydd

Byddai'r SFS yn defnyddio'r dadansoddiad SWOT i nodi'r ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar fusnesau fferm unigol. Byddai wedyn yn ystyried y berthynas rhwng y ffactorau mewnol ac allanol er mwyn gwella perfformiad. Gellir diffinio hyn fel un neu gyfuniad o 4 dull:

- **Twf** (Cryfder, Cyfle) defnyddio cryfderau mewnol i fanteisio ar gyfleoedd allanol
- **Atgyfnerthu** (Cryfder, Bygythiad) - defnyddio cryfderau mewnol i liniaru effeithiau gwendidau allanol
- **Amddiffynnol** (Gwendid, Cyfle) – goresgyn gwendid mewnol drwy fanteisio ar gyfleoedd allanol
- **Osgoi** (Gwendid, Bygythiad) – goresgyn gwendid mewnol a lleihau bygythiadau allanol



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

### Asesu Parhaus

Unwaith y bydd y strategaeth ar waith a bod y newidiadau'n cael eu cyflwyno, mae angen dull o asesu effaith y newidiadau. Mae hwn yn gam hollbwysig y mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n arwain at y canlyniadau a ddymunir. Gall gosod DPA a thargedau clir wrth lunio strategaeth fod yn adnodd defnyddiol i asesu cynnydd. Bydd defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol o bob rhan o'r sector yn galluogi'r grŵp i nodi eu perfformiad o'i gymharu â gweddill y sector. Mae rhywfaint o gefnogaeth eisoes ar gael ar gyfer meincnodi, gan gynyddu gallu'r fferm i gofnodi eu data eu hunain a chymharu gydag eraill. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni fel y prosiect Mesur i Reoli dan arweiniad Cyswllt Ffermio a'r rhaglen Meincnodi Cig Coch.

# Atodiad 2.4
# Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw

## Briff Iechyd a Lles Anifeiliaid
## Trafodaethau un i un

Mae hwn yn gyfle i chi helpu i siapio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd yng Nghymru. Bwriedir i'r SFS newydd ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) presennol a Glastir, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i lunio cynllun a fydd yn gweithio i chi a'ch busnes

Mae'r pum cam canlynol yn nodi eich taith arfaethedig trwy'r SFS newydd:
1. **Allgymorth** – proses i ddarparu gwybodaeth cyn i chi ymuno â'r cynllun.
2. **Datganiad o ddiddordeb** - i'w gwblhau a'i gyflwyno gennych chi, y ffermwr.
3. **Adolygiad Cynaliadwyedd Fferm** - i'w gynnal rhyngoch chi ag ymgynghorydd.
4. **Cynllun Cynaliadwyedd Fferm** – bydd hwn yn gynllun aml-flwyddyn a fydd yn sail y contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.
5. **Monitro a hunanasesu** – bydd hyn yn parhau trwy gydol y contract.

Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar bedwar prif faes, sef:
1. **Rheoli'r Pridd**
2. **Iechyd a Lles Anifeiliaid**
3. **Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm**
4. **Rheoli Cynefinoedd**

Mae'r drafodaeth hon yn canolbwyntio ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.

**Iechyd a Lles Anifeiliaid a Rheoli Da Byw**
Iechyd anifeiliaid yw lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol anifail. Lles anifeiliaid yw'r gallu i'r anifail hwnnw fynegi ei ymddygiad naturiol. Mae'r ffordd y mae anifeiliaid fferm yn derbyn gofal a'r ffordd y mae eu hiechyd yn cael ei reoli yn cael effaith sylweddol ar fusnesau fferm, yr amgylchedd a'r gymdeithas gyfan. Mae bioddiogelwch yn arf penodol i sicrhau iechyd a lles anifeiliaid. Mae'n cynnwys safonau lles uchel a chamau gweithredu penodol i atal afiechyd, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd anifeiliaid yn mynd yn sâl. Mae mabwysiadu arferion bioddiogelwch yn arwain at:
- Anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol
- Ffermydd mwy proffidiol
- Llai o lygredd ac allyriadau carbon
- Llai o risg i iechyd dynol





**Nod y cynllun**

Nod y canlyniad Iechyd a Lles Anifeiliaid a Rheoli Da Byw yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw codi safonau iechyd a lles pob anifail sy'n cael ei ffermio. Un o'r ffyrdd y byddwn yn ei fesur yw trwy ddefnyddio'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, er enghraifft:
- Atal afiechydon a defnyddio meddyginiaethau yn gynaliadwy:
  - Defnydd o driniaeth llyngyr
  - Defnydd o wrthfiotigau
- Gwaredu clefydau:
  - TB Buchol
  - BVD
  - Clafr defaid

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ar gyfer pob sefyllfa nac o bob clefyd ar bob fferm. Yn hytrach, dyma rai o'r mesuriadau y byddwn yn eu defnyddio i wirio cynnydd. Gellir newid y rhain yn y dyfodol pan fydd afiechydon newydd a blaenoriaethau newydd yn cael eu nodi. Byddwn hefyd yn mesur y canlyniad cynhyrchiant hwn yn erbyn ein hymrwymiad i sicrhau lleihad o 95% yn en hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

**Camau i'w hystyried fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy:**
Er y byddai'n bosibl i ni gael camau gweithredu'n seiliedig ar wahanol broblemau iechyd a lles cenedlaethol, fel clefydau unigol, mae Llywodraeth Cymru eisiau cefnogi dau ddull sy'n caniatáu i ffermwyr edrych ar yr union broblemau iechyd a lles ar eu fferm. Mae pob fferm yn wahanol ond gallant oll ddefnyddio'r un ddau ddull, sydd â chysylltiad agos, i atal a gwaredu afiechyd. Y rhain yw:

**Cynllunio iechyd anifeiliaid sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu**

Mae'r broses a gynigir i ffermwyr ymgymryd â hi yn cynnwys:
1. Adolygu perfformiad y fenter/mentrau da byw
2. Nodi'r prif feysydd i'w gwella, sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid
3. Gosod targedau ar gyfer gwella a chyflawni nifer cyraeddadwy o gamau gweithredu i gwrdd â'r targedau, fel arfer rhwng dau a phump
4. Bydd y camau gweithredu'n cael eu hadolygu a'u haddasu'n rheolaidd os oes angen nes y bydd y broblem wedi'i gwella. Bydd hyn yn dibynnu ar y broblem iechyd, a gallai gymryd wythnosau i flynyddoedd
5. Bydd y broses yn ailddechrau, gan arwain at welliant parhaus

Cynllunio bioddiogelwch

Bydd cynllun bioddiogelwch fferm fel arfer yn cynnwys:

- Cyflwyno anifeiliaid i'r fferm - y wybodaeth angenrheidiol er mwyn deall eu hanes o ran clefydau, sut y gellir eu cadw ar wahân i anifeiliaid eraill a'r profion a'r brechlynnau a allai fod yn angenrheidiol
- Ffiniau ffermydd - sut i atal anifeiliaid rhag dianc a'u hatal rhag dod i gysylltiad ag anifeiliaid cyfagos, a all ledaenu afiechydon, ynghyd â rhoi buddion eraill fel cysgod rhag gwynt a'r haul
- Cerbydau ac offer yn dod i mewn ac allan o'r fferm - pa fynedfeydd a llwybrau sy'n angenrheidiol er mwyn cadw'r rhain oddi wrth y da byw, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu golchi a'u diheintio
- Pobl yn cyrraedd ac yn gadael y fferm - cynllun ar gyfer ymwelwyr, pa ddillad ac esgidiau y bydd arnynt eu hangen yn ogystal â'r offer sydd angen ei olchi a'i ddiheintio
- Rheoli bywyd gwyllt - atal adar a bywyd gwyllt arall rhag gallu dod i gysylltiad ag anifeiliaid a'u bwyd anifeiliaid

Mae pob fferm yn wahanol rydym yn archwilio pa fath o gamau a ddylai ffermwyr eu cynnwys yn nodweddiadol yn y cynllun bioddiogelwch ar gyfer gwahanol fathau o ffermydd.

DEFNYDDIO GWRTHFIOTIGAU

Mae pryder cynyddol ynghylch ymwrthedd gwrthficrobaidd, sef pan fo bacteria yn gallu gwrthsefyll y gwrthfiotigau a ddefnyddir i drin heintiau. Mae ein Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd ar gyfer Cymru yn nodi sut rydyn ni'n mynd i ddelio â risgiau datblygu a lledaenu ymwrthedd gwrthficrobaidd. Bydd defnyddio meddyginiaethau yn gyfrifol, trwy amddiffyn anifeiliaid rhag afiechydon fel bod angen llai o driniaethau gwrthfiotig arnynt, yn helpu i atal ymwrthedd gwrthfiotig. Ar lefel y DU mae'r Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA) wedi nodi targedau sector-benodol ar gyfer lleihau, mireinio neu amnewid gwrthfiotigau mewn ffermio.

BIODDIOGELWCH

Nod mesurau bioddiogelwch yw atal cyflwyno unrhyw afiechydon neu heintiau newydd ar y fferm. Dylai hyn fod yn sylfaen i unrhyw Gynllun Iechyd Fferm. Mae buddion protocolau bioddiogelwch da nid yn unig yn arwain at anifeiliaid iachach a mwy proffidiol, ond hefyd at lai o ddefnydd o feddyginiaethau gwrthficrobaidd, a llygredd amgylcheddol anfwriadol.

CADW COFNODION

Mae cadw cofnodion yn adnodd hanfodol sy'n rhoi syniad i ni o lefelau cynhyrchiant, cyfradd marwolaeth a defnydd o adnoddau ar y fferm. Mae cadw cofnodion yn gywir yn ein galluogi i ddadansoddi'r busnes fferm yn barhaus, gan arwain at adolygu a gwella arferion presennol. Mae casglu data yn ein galluogi i lunio dangosyddion perfformiad allweddol y gellir eu defnyddio i gymharu amrywiaethau tymhorol a blynyddol ar y fferm yn ogystal â chymharu gyda busnesau eraill tebyg. Yn bwysig, gellir ei ddefnyddio hefyd i ddangos sut mae'r diwydiant yn cyflawni safonau uchel o ran iechyd a lles.